PŴER NIWCLEAR HORIZON NUCLEAR POWER

WYLFA NEWYDD

YNNI YN GWEITHIO I BRYDAIN

# Prosiect Wylfa Newydd
# Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio – Cam Un

## Dogfen Trosolwg o'r Ymgynghoriad





Llun o'r awyr gan gynnwys Safle'r Orsaf Bŵer a gorsaf bŵer bresennol Magnox

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# **Rhagair** gan Alan Raymant

**Mae gan Ynys Môn hanes diwydiannol anrhydeddus, sy'n cynnwys cynhyrchu pŵer niwclear am y 40 mlynedd diwethaf. Rydyn ni'n awyddus i barhau â'r dreftadaeth hon ac rydyn ni'n cynnig buddsoddi biliynau o bunnoedd mewn gorsaf bŵer newydd, a fydd yn defnyddio'r genhedlaeth ddiweddaraf o dechnoleg niwclear. Bydd yr orsaf hon yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddiwallu angen y DU am ddyfodol gydag ynni glanach.**

Dyma gam cyntaf yr ymgynghoriad cyhoeddus ar ein Prosiect Wylfa Newydd ac mae'n deillio o'r trafodaethau rydyn ni wedi gweithio'n galed i'w cynnal gyda'r gymuned leol dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd ein Prosiect Wylfa Newydd yn dod â buddsoddiad sylweddol i Ynys Môn ac i Ogledd Orllewin Cymru. Byddwn ni'n creu miloedd o swyddi adeiladu, a allai gyrraedd 8,500 yn ystod y cyfnodau prysuraf yn Safle'r Orsaf Bŵer, yn ogystal ag yn creu ac yn cefnogi rhagor o gyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi mewn diwydiannau a gwasanaethau cefnogi, gan helpu i sicrhau dyfodol economaidd tymor hir Ynys Môn. Rydyn ni'n awyddus i wybod beth rydych chi'n ei feddwl wrth i ni ddatblygu ein cynigion.

Rydyn ni eisiau cynnal ymgynghoriad sy'n ystyrlon, yn gynhwysfawr ac yn glir ac rydyn ni'n eich annog i gymryd rhan yn y broses ymgynghori hon. Mae eich safbwyntiau'n cyfri.

Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda chi i ddeall effeithiau posibl y Prosiect ac ystyried sut gallwn ni reoli'r effeithiau hyn a chreu manteision i'r gymuned.

Yn y ddogfen hon rydyn ni'n amlinellu ein cynigion penodol ac yn gofyn nifer o gwestiynau am elfennau penodol o'r Prosiect lle gallai eich safbwyntiau gael effaith go iawn. Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei hoffi am ein cynigion a beth rydych chi'n meddwl bydden ni'n gallu ei wneud yn wahanol.

Rydyn ni'n falch o fod wedi cyrraedd y cam ymgynghori cymunedol ffurfiol ac rydyn ni'n edrych ymlaen at glywed eich safbwyntiau.



Alan Raymant

**Prif Swyddog Gweithredu**
Pŵer Niwclear Horizon

## EIN GWELEDIGAETH

***Rydyn ni'n credu bod taer angen pŵer niwclear newydd yn y DU er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r sialens hollbwysig a chymhleth o ddarparu dyfodol ynni cynaliadwy. Bydd Horizon yn darparu ynni sicr, fforddiadwy a charbon isel ar gyfer y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.***


© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Buddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd mewn gorsafoedd pŵer niwclear yn y DU

Dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU gydag oes gweithredu o tua 60 o flynyddoedd yr un

Bydd Wylfa Newydd yn cynhyrchu 2,700MW o drydan carbon isel

Digon o drydan carbon isel ar gyfer tua 5 miliwn o gartrefi



© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Cynnwys


**Trosolwg o'r Prosiect** 5

Ein Prosiect 5
Y broses ar gyfer cymeradwyo'r Prosiect 6

**Yr Ymgynghoriad hwn** 7

Y dogfennau sydd ar gael ar gyfer ymgynghori 7
Y camau nesaf 7
Y cyfle i ddylanwadu ar y Prosiect 8

**Trosolwg Amgylcheddol** 9

Yr amgylchedd lleol 9
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol 10
Asesiadau ategol 10

**Yr Orsaf Bŵer** 11

Lleoliad a chydrannau'r Prosiect 11
Ffurfweddiad yr Orsaf Bŵer 12
Datblygiad arfordirol 13
Gwastraff ymbelydrol 15

**Adeiladu'r Orsaf Bŵer** 17

Gwaith galluogi 17
Y prif waith adeiladu 18
Tirwedd ac ymddangosiad 19
Ymddangosiad gweledol yr adeiladau 21
Cyfleoedd gwaith 22
Buddsoddi yn y gweithlu 22
Ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi a chaffael lleol 23

**Diwallu Gofynion y Gweithlu Adeiladu a Thrafnidiaeth** 25

Strategaeth trafnidiaeth a thraffig integredig 25
Dulliau trafnidiaeth 25
Danfon nwyddau dros y môr 26
Symudiadau ar y ffyrdd 27
Dewisiadau i wella'r priffyrdd 28
Strategaeth Llety Gweithwyr 31
Ardal chwilio fawr ar gyfer safleoedd 32
Datblygiadau Cysylltiedig

**Manteision i'r Dyfodol a Chyfleusterau Cymunedol** 33

Manteision i'r dyfodol 33
Cyfleusterau cymunedol 34

**Ymateb i'r Ymgynghoriad hwn** 35

Sut mae cyflwyno eich adborth 35
Dogfennau ymgynghori 36
Dogfennau cefnogol 36


## RHAGOR O WYBODAETH

Dyma drosolwg o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un ar gyfer ein Prosiect. Rydyn ni wedi rhestru'r dogfennau pwysig sydd ar gael yn ystod yr ymgynghoriad hwn ar dudalen 36 a gallwch lwytho copïau o'r rhain i lawr o'n gwefan yn **www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad**

***Mae'r ddogfen hon yn cynnwys nodiadau, fel hwn, i chi gael gwybod lle mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth am bynciau penodol.***

## CADWCH LYGAD AR AGOR AM YR EICONAU HYN DRWY'R DDOGFEN HON

### CWESTIWN

Rydyn ni wedi cynnwys cwestiynau ein hymgynghoriad am elfennau o'r Prosiect lle gallai eich mewnbwn chi fod yn ddefnyddiol dros ben. Mae'r marc cwestiwn yn nodi pryd dylech edrych ar y ffurflen adborth, sydd wedi'i hamgáu gyda'r ddogfen hon.

### RHAGOR O WYBODAETH

Mae hyn yn dangos bod rhagor o wybodaeth fanwl ar gael am y Prosiect.

### RHAGOR O WAITH DARLLEN

Mae hyn yn dangos lle a sut mae modd cael gafael ar ragor o waith darllen am y Prosiect.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Trosolwg o'r Prosiect

**Rydyn ni'n bwriadu adeiladu a rhedeg gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa,** i'r gorllewin o Gemaes ac yn union i'r de o leoliad gorsaf bŵer bresennol Magnox. Bydd ein prosiect yn darparu trydan carbon isel sicr am ddegawdau, ond ar ben hynny bydd yn creu llawer o gyfleoedd gwaith tymor hir a manteision economaidd i Ynys Môn ac i Ogledd Cymru.

## EIN PROSIECT

Mae'r trosolwg hwn yn sôn am **Brosiect Wylfa Newydd** (neu'r Prosiect) yn ei gyfanrwydd, sy'n cynnwys yr **Orsaf Bŵer** a'r **Datblygiadau Cysylltiedig**.

### Yr Orsaf Bŵer

Yr Orsaf Bŵer yw'r orsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig a fydd yn cynnwys dau Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU (UK ABWR) a fydd yn cael eu cyflenwi gan Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd, nodweddion a strwythurau ategol a gwaith cysylltiedig a fydd yn cael eu hadeiladu a'u gweithredu yn Wylfa. Edrychwch ar adran 'Yr Orsaf Bŵer' y ddogfen hon sy'n dechrau ar dudalen 11 i gael rhagor o wybodaeth.

### Datblygiadau Cysylltiedig

Bydd y Datblygiadau Cysylltiedig yn cefnogi'r gwaith o ddarparu'r Orsaf Bŵer. Bydd hyn yn cynnwys gwaith fel gwella'r briffordd ar hyd yr A5025, cyfleusterau parcio a theithio i weithwyr, o leiaf un ganolfan logisteg a llety gweithwyr dros dro oddi ar y safle. Edrychwch ar adran 'Diwallu gofynion y gweithlu adeiladu a thrafnidiaeth' y ddogfen hon sy'n dechrau ar dudalen 25 i gael rhagor o wybodaeth.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth benodol am y gweithgareddau adeiladu mae'n rhaid eu gwneud ar y tir ac yn y môr ger morlin Porth-y-pistyll, gan gynnwys system dŵr oeri a chyfleuster dadlwytho morol, yn ogystal â'n syniadau cychwynnol am dirweddu a chyfuchlinio'r tir o amgylch yr Orsaf Bŵer.

Rydyn ni hefyd wedi cynnwys gwybodaeth am ein cynigion i helpu pobl leol i ddeall pa sgiliau fyddan nhw eu hangen er mwyn gallu cymryd rhan yn ein Prosiect, yn ogystal â gwybodaeth am gynigion a chyfleoedd posibl ar gyfer cyfleusterau cymunedol, chwaraeon, hamdden ac adloniant.




**Ffigur 1:** Yr amserlen a'r cyfnodau a gynigir ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd

**Rydyn ni'n sôn am dair ardal pan fyddwn ni'n cyfeirio at y Prosiect:**


- **Safle'r Orsaf Bŵer** – yr ardal ddangosol o dir a môr lle bydd y rhan fwyaf o adeiladau, gwaith a strwythurau parhaol yr Orsaf Bŵer.
- **Ardal Datblygu Wylfa Newydd** – yr ardal ddangosol o dir sy'n cynnwys Safle'r Orsaf Bŵer a'r ardaloedd cyfagos a fyddai'n cael ei defnyddio ar gyfer adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer.
- **Safle Datganiad Polisi Cenedlaethol Wylfa** – mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Datganiad Polisi Cenedlaethol ynghylch nifer bach o safleoedd yn y DU sy'n addas ar gyfer datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae'r ardal a ddynodwyd yn Wylfa yn cael ei galw yn Safle Datganiad Polisi Cenedlaethol Wylfa.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cyhoeddi canllawiau cynllunio y byddwn ni'n eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ein Prosiect. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gweledigaeth y Cyngor i'r Prosiect fod yn *"sbardun ar gyfer trawsnewid yr economi a chymunedau yn Ynys Môn a fydd yn darparu cyfleoedd gwaith cynaliadwy, yn gwella ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn hyrwyddo hunaniaeth a nodweddion unigryw lleol."*

### CWESTIWN 1

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau cyffredinol ar y Prosiect?***

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited




**Ffigur 2:** Lleoliad yr Orsaf Bŵer

## Y PROSESAU AR GYFER CYMERADWYO'R PROSIECT

Mae'r DU yn wynebu sialensiau mawr o ran ynni dros y blynyddoedd nesaf, ac mae angen buddsoddi'n sylweddol mewn technoleg a seilwaith newydd wrth i ni symud at leihau allyriadau carbon a defnyddio mathau amgen o ynni. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynnwys ymrwymiad clir i gynhyrchu ynni carbon isel er mwyn helpu i sicrhau cyflenwadau ynni sicr i'r DU, ar yr un pryd â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd gan bŵer niwclear ran bwysig i'w chwarae o ran diwallu'r sialensiau hyn, ac mae wedi nodi bod Safle Datganiad Polisi Cenedlaethol Wylfa ar Ynys Môn yn safle a allai fod yn addas ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd.

Mae Deddf Cynllunio 2008 yn rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhoi cydsyniad i 'brosiectau seilwaith sydd â phwysigrwydd cenedlaethol' fel gorsafoedd pŵer niwclear. Gorchymyn cydsyniad datblygu ydy'r awdurdod allweddol rydyn ni ei angen i adeiladu'r Orsaf Bŵer, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd sy'n gyfrifol am roi hwnnw. Rydyn ni'n bwriadu cyflwyno cais ar gyfer y gorchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer yr Orsaf Bŵer yn 2017.

Mae pŵer niwclear yn ddiwydiant sy'n cael ei reoleiddio'n drwm a bydd angen trwydded safle niwclear i osod ac i weithredu'r Orsaf Bŵer. Bydd angen trwyddedau amrywiol eraill, gan gynnwys caniatâd cynllunio, trwyddedau morol a thrwyddedau amgylcheddol.

### RHAGOR O WAITH DARLLEN

***Mae rhagor o wybodaeth am sut penderfynwyd bod Safle Datganiad Polisi Cenedlaethol Wylfa a saith safle arall o bosibl yn addas ar gyfer cynhyrchu pŵer niwclear mewn Datganiad Polisi Cenedlaethol sydd ar gael yn: www.gov.uk/government/publications/national-policy-statements-for-energy-infrastructure***

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Yr ymgynghoriad hwn

Mae Deddf Cynllunio 2008 yn mynnu bod hyrwyddwr prosiect seilwaith sydd â phwysigrwydd cenedlaethol yn cynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio cyn gwneud cais am orchymyn cydsyniad datblygu. Yn yr achos hwn, Horizon yw'r hyrwyddwr, a'n Gorsaf Bŵer yw'r prosiect seilwaith sydd â phwysigrwydd cenedlaethol. Rydyn ni'n rhagweld mai dyma gam cyntaf proses cyn ymgeisio dau gam am ein Prosiect.

## DOGFENNAU SYDD AR GAEL AR GYFER YR YMGYNGHORIAD

Bydd y dogfennau sydd ar gael ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn amrywio o ran lefel y wybodaeth dechnegol sy'n cael ei darparu, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 3. Maen nhw ar gael i'w llwytho i lawr yn **www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad.**


## Y CAMAU NESAF

Ar ôl y cam cyntaf hwn o ymgynghori, byddwn ni'n datblygu cynigion ein Prosiect ymhellach. Rydyn ni'n bwriadu rhoi gwybod i chi sut mae eich sylwadau wedi cael eu hystyried. Rydyn ni'n bwriadu gwneud hyn drwy ddefnyddio ein prosesau ymgysylltu sydd wedi ennill eu plwyf, fel cyfarfodydd Grŵp Cyswllt y Prosiect, cylchlythyrau a chymorthfeydd agored misol. Disgwylir y bydd ail gam ein hymgynghoriad â chi yn cael ei gynnal tua diwedd 2015.

Byddwn ni'n cynhyrchu Adroddiad Ymgynghoriad Interim a fydd yn cael ei gyhoeddi gyda'r ymgynghoriad cyn ymgeisio Cam Dau, a fydd yn amlinellu'r ymatebion perthnasol a ddaeth i law a sut rydyn ni wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Prosiect.

### CWESTIWN 2

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y ffordd mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal?***




**Ffigur 3:** Deunyddiau ymgynghoriad cyn ymgeisio Cam Un


© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

## Y CYFLE I DDYLANWADU AR Y PROSIECT

Mae'n bwysig deall nad ydyn ni'n ymgynghori ynghylch egwyddor pŵer niwclear na pha mor addas ydy ein safle ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd gan fod y Llywodraeth eisoes wedi cadarnhau bod y naill fater a'r llall yn dderbyniol. Yn hytrach, rydyn ni'n ymgynghori ynghylch ein cynigion penodol ar gyfer y Prosiect.

Rydyn ni wedi ceisio nodi pa gyfleoedd sydd ar gael i chi ddylanwadu ar y Prosiect, sy'n wahanol yn ôl faint rydyn ni wedi symud ymlaen o ran datblygu elfennau amrywiol cynigion ein Prosiect. Mae rhagor o wybodaeth am eich cyfleoedd i ddylanwadu ar elfennau unigol o'r Prosiect ar gael ym Mhenodau 6, 8, 9, 10 ac 11 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un. Yn gyffredinol, mae cwestiynau ein hymgynghoriad yn ymwneud ag elfennau lle mae dewisiadau ar gael, sy'n rhoi'r cyfle mwyaf i chi allu dylanwadu ar y Prosiect.

Mae eich adborth yn bwysig i ni wrth i ni ddatblygu ein cynigion. Byddwn ni'n ystyried eich sylwadau ochr yn ochr â'n hasesiadau ein hunain, gan gyfrannu at gynigion y Prosiect yn y dyfodol.




**Ffigur 4:** Y cyfle i ddylanwadu ar y Prosiect

### CYFLE SYLWEDDOL I DDYLANWADU

Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- dulliau gwahanol o ran pensaernïaeth
- dewisiadau o ran tirweddu
- mathau o lwybrau hamdden
- safleoedd Datblygiadau Cysylltiedig
- cyfleoedd ar gyfer manteision i'r dyfodol

### CYFLE CYFYNGEDIG I DDYLANWADU

Rydyn ni eisoes wedi penderfynu ar y dulliau sydd orau gennym ni ar gyfer yr elfennau hyn o'r Prosiect. O'r herwydd, mae newidiadau'n bosibl ond bydd y rheini'n bennaf o ganlyniad i ganfyddiadau arolygon manwl a rhagor o waith dylunio ac ymgysylltu â'r rheoleiddwyr. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- cynllun cyffredinol yr Orsaf Bŵer
- rhaglen gyffredinol y Prosiect

### DIM CYFLE I DDYLANWADU

Fydd yr elfennau hyn o'r Prosiect ddim yn newid. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- defnyddio technoleg adweithydd UK ABWR
- adeiladu'r Orsaf Bŵer yn Safle Datganiad Polisi Cenedlaethol Wylfa

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Trosolwg Amgylcheddol


## YR AMGYLCHEDD LLEOL

Yn ogystal ag aneddiadau Cemaes a Thregele, mae'r tir o amgylch Ardal Datblygu Wylfa Newydd yn cynnwys clystyrau bach o dai preswyl a ffermydd. Mae tirwedd yr ardal yn cynnwys bryniau crwn bach (o'r enw drymlinoedd) ynghyd ag aneddiadau a ffyrdd lleol. Mae morlinau agored Môr Iwerddon sy'n dangos ôl y tywydd yn nodweddion amlwg.

Yn gyffredinol mae'r tir yn yr ardal yn cael ei reoli fel porfeydd, ac mae yno wrychoedd a rhwydwaith o ffyrdd, lonydd gwledig, cyrsiau dŵr a llinellau pŵer uwchben. Mae llawer o'r tir o amgylch Ardal Datblygu Wylfa Newydd wedi ei ddynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ac mae rhannau'n cyd-daro â rhannau o Arfordir Treftadaeth Gogledd Ynys Môn. Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 5, mae nodweddion dynodedig eraill wrthlaw yn cynnwys:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Tre'r Gof a Chae Gwyn
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig Ynys Feurig, Bae Cemlyn ac Ynysoedd y Moelrhoniaid
- Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Cemlyn
- Gerddi Cestyll rhestredig Gradd II, sydd hefyd yn Barc Cofrestredig ac yn Ardd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru
- Ardaloedd mawr o dir sydd wedi'u dynodi'n lleol yn Ardal Tirwedd Arbennig

Mae nifer o hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys Llwybr Arfordir Cymru a'r Trywydd Copr yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd.




**Ffigur 5:** Yr amgylchedd lleol – Dynodiadau allweddol

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

## ASESIAD O'R EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Er mwyn deall yr effeithiau tebygol ar yr amgylchedd presennol, byddwn ni'n cynnal asesiad o effaith amgylcheddol ein Prosiect.

Er nad yw'r Prosiect wedi cyrraedd y cam lle mae modd cynnal asesiad manwl o'r effaith amgylcheddol, rydyn ni wedi paratoi Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol Cam Un sy'n nodi'r pynciau amgylcheddol rydyn ni'n bwriadu rhoi sylw iddyn nhw, gwybodaeth am yr amodau amgylcheddol ar hyn o bryd, ac effeithiau amgylcheddol posibl y Prosiect. Ar hyn o bryd rydyn ni'n disgwyl y byddai'r Prosiect yn cael effeithiau posibl ar elfennau economaidd-gymdeithasol, hamdden, traffig a thrafnidiaeth, sŵn, ansawdd yr aer, pridd, hydroleg, ecoleg, llanw a cherrynt y môr a'r golygfeydd presennol. Mae'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol hefyd yn sôn am fesurau rydyn ni wedi'u nodi a fyddai'n gallu lleihau neu reoli effeithiau niweidiol posibl, neu gynnig gwella effeithiau a allai fod yn fuddiol.



Yr olygfa wrth edrych ar draws rhan o Safle'r Orsaf Bŵer

### EICH SAFBWYNTIAU

***Rydyn ni'n croesawu eich safbwyntiau ar fesurau lliniaru rydych chi'n meddwl a fyddai'n helpu i leihau a gwneud iawn am effeithiau niweidiol tebygol adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer.***

### CWESTIWN 3

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol a gyflwynwyd gan Horizon?***

### RHAGOR O WYBODAETH

***Gallwch ddarllen rhagor am effeithiau posibl ein Prosiect ar yr amgylchedd yn Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol Cam Un a'r Crynodeb Annhechnegol sy'n dod gydag ef. Mae modd llwytho'r naill ddogfen a'r llall i lawr o www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad.***

## ASESIADAU CEFNOGOL

### ASESIAD O EFFAITH Y PROSIECT AR Y GYMRAEG A'I DIWYLLIANT

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a'i diwylliant ac rydyn ni wedi comisiynu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i nodi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol posibl ar y Gymraeg a'i diwylliant oherwydd y Prosiect ac, os oes angen, mesurau priodol i liniaru a gwella. Mae adroddiad cwmpasu wedi cael ei baratoi ac mae'n nodi'r fethodoleg byddwn ni'n ei defnyddio ar gyfer ein hasesiad sydd ar fin cael ei gynnal. Ar hyn o bryd rydyn ni'n adolygu'r adroddiad cwmpasu hwn gyda Chyngor Sir Ynys Môn a rhanddeiliaid allweddol.

### ASESIAD O'R EFFAITH AR IECHYD

Rydyn ni wedi comisiynu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, a fydd yn ystyried effeithiau posibl y Prosiect ar iechyd a lles yn y gymuned. Mae adroddiad cwmpasu wedi cael ei baratoi i nodi'r fethodoleg rydyn ni'n bwriadu ei defnyddio ar gyfer yr asesiad ac rydyn ni'n adolygu hyn gyda Chyngor Sir Ynys Môn a rhanddeiliaid allweddol.

### ASESIAD CYNALIADWYEDD

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd cynaliadwyedd. Rydyn ni wedi paratoi adroddiad cwmpasu sy'n rhoi ein hamcanion ar gyfer datblygu cynaliadwy. Rydyn ni'n bwriadu adolygu ein Prosiect o bryd i'w gilydd o ran sut mae'n cyflawni'r amcanion hyn i helpu i sicrhau ein bod yn ymgyrraedd at adeiladu a gweithredu cynaliadwy. Mae ein hadroddiad cwmpasu'n cael ei adolygu gyda Chyngor Sir Ynys Môn a rhanddeiliaid allweddol.

Er nad oes ymgynghoriad ffurfiol ar y rhain, mae'r adroddiadau cwmpasu hyn ar gael ar ein gwefan: **www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad.** Bydd yr asesiadau'n rhan o'n cais ar gyfer gorchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer yr Orsaf Bŵer.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Yr Orsaf Bŵer


## CYDRANNAU A LLEOLIAD Y PROSIECT

Bydd y rhan fwyaf o adeiladau'r Orsaf Bŵer yn yr ardal sy'n cael ei galw yn Safle'r Orsaf Bŵer, fel y dangosir yn Ffigur 6.

Rydyn ni'n disgwyl mai dim ond 80-90 hectar o dir fydd ei angen ar gyfer yr Orsaf Bŵer weithredol yn hytrach na Safle Datganiad Polisi Cenedlaethol Wylfa yn ei gyfanrwydd. Mae Safle'r Orsaf Bŵer yn cynnwys rhannau o ddŵr cymharol gysgodol Porth-y-pistyll, i'r de-orllewin o orsaf bŵer bresennol Magnox. Bydd y ddau adweithydd niwclear, y strwythurau ar gyfer sugno a gollwng dŵr oeri/adeilad y pwmp, y morgloddiau, a'r strwythurau ategol eraill o fewn ffiniau Safle'r Orsaf Bŵer.

Mae Ffigur 6 hefyd yn dangos ardal ddangosol ar gyfer Ardal Datblygu Wylfa Newydd ac mae'n cynnwys Safle'r Orsaf Bŵer a'r ardaloedd cyfagos a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer. Bydd hyn yn rhoi digon o le i ni storio offer, peiriannau a deunyddiau a fydd eu hangen ar gyfer y gwaith adeiladu yn ogystal â nifer o adeiladau dros dro er mwyn darparu cyfleusterau swyddfeydd, storio a lles ar gyfer y gweithwyr adeiladu. Mae Adeiladau Porth Wylfa yn yr ardal hon a bydd y rheini'n cynnwys adeiladau eraill ar gyfer nifer o gyfleusterau y bydd angen i ni eu symud yn ystod ein Gwaith Galluogi, gan gynnwys Clwb Cymdeithasol a Chwaraeon Wylfa. Adeiladau Porth Wylfa yw'r lleoliad sy'n cael ei ffafrio ar gyfer ein canolfan i ymwelwyr hefyd. Efallai byddwn hefyd yn rhoi rhywfaint o lety gweithwyr dros dro yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

Dydyn ni heb benderfynu eto ar rai ardaloedd o dir sydd eu hangen ar gyfer y Prosiect ond byddai'r rhain y tu allan i Ardal Datblygu Wylfa Newydd ac mae'r rhain yn cael eu galw yn ardaloedd 'oddi ar y safle'. Disgwylir y bydd angen yr ardaloedd hyn i ddatblygu llety gweithwyr dros dro oddi ar y safle (edrychwch ar dudalen 31), gwella priffyrdd (edrychwch ar dudalen 28) a chynlluniau trafnidiaeth eraill fel cyfleusterau parcio a theithio ac o leiaf un ganolfan logisteg (edrychwch ar dudalen 32).




**Ffigur 6:** Ardaloedd daearyddol y Prosiect

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited


## FFURFWEDDIAD YR ORSAF BŴER

Bydd yr Orsaf Bŵer yn cynhyrchu trydan drwy ddefnyddio dau adweithydd niwclear UK ABWR a fydd yn cael eu cyflenwi gan Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd. Mae Ffigur 7 yn cynnwys cynllun dangosol yr Orsaf Bŵer.

Mae cynllun gweithredol yr Orsaf Bŵer yn dibynnu'n drwm ar y dechnoleg adweithydd a fydd yn cael ei defnyddio. Bydd hyn yn cael ei asesu gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Rhaid i ni hefyd ddatblygu rhai cyfleusterau sydd ar wahân i'r Orsaf Bŵer ond ddim yn rhy bell oddi wrthi ac yn rhan ohoni, fel cyfleuster rheoli arall mewn argyfwng ar gyfer yr Orsaf Bŵer a garejys i storio cerbydau arbenigol. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y rhan fwyaf o'r cyfleusterau y tu allan i barth cynllunio argyfwng dynodedig ond yn ddigon agos at Safle'r Orsaf Bŵer i leihau'r amser teithio rhwng y cyfleusterau argyfwng a Safle'r Orsaf Bŵer. Yn gyffredinol, rydyn ni'n disgwyl i'r pellter hwn fod rhwng 1.5km a 5km i ffwrdd, gyda mynediad hawdd at y prif ffyrdd.

Rydyn ni'n arbennig o awyddus i gael adborth ar elfennau o'r Orsaf Bŵer lle mae nifer o ddewisiadau ar eu cyfer ar y cam hwn, gan gynnwys cynllun ein datblygiad arfordirol arfaethedig a lleoliad lle storio dros dro interim ar gyfer gwastraff ymbelydrol a thanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio, ac rydyn ni'n rhoi gwybodaeth ychwanegol am hyn ar y tudalennau nesaf.




**Ffigur 7:** Dosbarthiad dangosol cydrannau'r Prosiect – Safle'r Orsaf Bŵer a'r ardal gyfagos

### RHAGOR O WAITH DARLLEN

***Gallwch ddarllen rhagor am yr Orsaf Bŵer a sut mae gorsaf bŵer niwclear yn gweithio ym Mhennod 6 ac Atodiad A Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un.***

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Yr Orsaf Bŵer

## DATBLYGIAD ARFORDIROL


**System Dŵr Oeri**
Rydyn ni'n bwriadu defnyddio Môr Iwerddon fel ffynhonnell dŵr ar gyfer system dŵr oeri'r Orsaf Bŵer, yn debyg i'r trefniadau yng ngorsaf bŵer bresennol Magnox ar hyn o bryd. Mae angen y rhannau canlynol ar y system dŵr oeri:

- Strwythur sugno, a fydd yn sugno dŵr o Fôr Iwerddon
- Adeilad y pwmp, i ddosbarthu'r dŵr drwy'r pibellau dŵr oeri yn yr Orsaf Bŵer
- Twneli tanddaearol i gludo dŵr y môr oddi wrth yr Orsaf Bŵer ac i'r strwythur gollwng
- Strwythur gollwng, i ryddhau'r dŵr oeri yn ôl i Fôr Iwerddon

**Strwythur sugno ar gyfer y system dŵr oeri**
Rydyn ni wedi nodi Porth-y-pistyll fel lleoliad ar gyfer y strwythur sugno. Mae'r morlin yma eisoes yn cynnig rhywfaint o amddiffyniad oddi wrth y tonnau ac mae angen i ni adeiladu dau strwythur morglawdd i gynyddu'r amddiffyniad hwn a sicrhau hinsawdd tonnau addas wrth y strwythur sugno dŵr oeri. Mae Ffigur 8 yn dangos cynllun dangosol y datblygiad arfordirol ym Mhorth-y-pistyll, gan gynnwys y morgloddiau.

### RHAGOR O WAITH DARLLEN

*Gallwch ddarllen rhagor am sut roedden ni wedi dewis Porth-y-pistyll ar gyfer y strwythur sugno dŵr oeri a dyluniad arfaethedig y morgloddiau ym Mhennod 5 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol Cam Un.*




**Ffigur 8:** Datblygiad arfordirol dangosol ym Mhorth-y-pistyll

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

**Strwythur gollwng ar gyfer y system dŵr oeri**
Rydyn ni wedi ystyried y ffordd mae'r llanw a'r cerrynt yn symud dŵr ar hyd morlin Ynys Môn gan ei bod hi'n bwysig sicrhau y bydd y dŵr oeri sy'n dychwelyd i Fôr Iwerddon yn y strwythur gollwng yn cael ei wasgaru'n gyflym ac, ar ben hynny, na fydd yn cael ei dynnu'n ôl i mewn drwy'r strwythur sugno cyn iddo gael cyfle i gymysgu'n dda gyda'r dŵr môr oerach. Rydyn ni wedi dewis y lleoliad sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y strwythur gollwng, ac mae hwn yn cael ei ddangos yn Ffigur 9. Byddai hyn yn golygu adeiladu strwythur gollwng newydd a fyddai'n rhyddhau i'r un lleoliad â strwythur gollwng gorsaf bŵer bresennol Magnox a byddai'n ailddefnyddio'r sianel sydd eisoes wedi cael ei thorri yng ngwely'r môr.


Bydd ein gallu i ailddefnyddio sianel gollwng gorsaf bŵer bresennol Magnox yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys trafodaethau â Magnox Limited a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, yn enwedig mewn perthynas ag a fydd ein hamserlenni'n cyd-fynd, yn ogystal ag asesiadau pellach ac adborth o'r ymgynghoriad. Os byddwn yn dod i'r casgliad na fydd hi'n bosibl adeiladu yn y lleoliad hwn, byddem yn defnyddio lleoliad arall ychydig i'r gogledd o strwythur gollwng gorsaf bŵer bresennol Magnox, ar arfordir de-orllewinol Trwyn Wylfa. Yn y lleoliad hwn, byddai dŵr yn cael ei ryddhau i'r un bae, ond mewn cyfeiriad gwahanol.

**Cyfleuster Dadlwytho Morol**
Y darn olaf o seilwaith a fyddai ym Mhorth-y-pistyll fyddai cyfleuster dadlwytho morol. Bydd y cyfleuster dadlwytho morol yn cynnwys dau gei a bydd ganddo lwybr mynediad er mwyn gallu cludo pethau'n uniongyrchol i Ardal Datblygu Wylfa Newydd dros y môr, gan leihau'r angen i ddefnyddio'r ffyrdd lleol. Byddai'r cyfleuster hwn ar gael yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu. Edrychwch ar adran 'Diwallu gofynion y gweithlu adeiladu a thrafnidiaeth' y ddogfen hon i gael gwybod mwy am sut byddwn ni'n diwallu'r gofynion trafnidiaeth.

Rydyn n'n cynnig lleoli'r cyfleuster dadlwytho morol yn yr un bae â'r strwythur sugno dŵr oeri. Bydd hyn yn golygu bod modd i longau fanteisio ar y diogelwch a'r cysgod a fydd yn cael ei gynnig gan y morgloddiau arfaethedig, yn ogystal â chanolbwyntio effeithiau posibl ar y morlin a'r amgylchedd mewn un prif leoliad. Rydyn ni hefyd yn ystyried codi cyfleuster glanio dros dro yn y lleoliad hwn i'w ddefnyddio cyn i'r cyfleuster dadlwytho morol gael ei adeiladu'n llawn a'i ddefnyddio.

## CWESTIWN 4

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion datblygu arfordirol Horizon ym Mhorth-y-pistyll a Thrwyn Wylfa, sy'n ymwneud â'r system dŵr oeri (gan gynnwys y morgloddiau) a'r cyfleuster dadlwytho morol?***




**Ffigur 9:** Lleoliad strwythur gollwng system dŵr oeri gorsaf bŵer bresennol Magnox

## EICH SAFBWYNTIAU

*Rydyn ni'n awyddus i gael adborth am ddatblygu cyfleuster dadlwytho morol i reoli danfon nwyddau i Ardal Datblygu Wylfa Newydd a phosibilrwydd cyfleuster glanio dros dro.*

*Rydyn ni hefyd yn croesawu eich sylwadau a'ch barn ynghylch y dewisiadau ar gyfer y strwythur gollwng dŵr oeri a'r cynnig i leoli'r cyfleuster dadlwytho morol yn yr un lle â'r strwythur sugno dŵr oeri ym Mhorth-y-pistyll.*

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Yr Orsaf Bŵer

## GWASTRAFF YMBELYDROL

Pan fydd yr Orsaf Bŵer ar waith bydd yn dechrau cynhyrchu tanwydd a fydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff ymbelydrol, a fydd yn cael ei wahanu a'i gategoreiddio'n ofalus. Disgwylir y bydd gwastraff ymbelydrol sydd â lefelau ymbelydredd isel ac isel iawn, fel menig ac oferôls sydd wedi'u halogi, yn cael eu gwaredu mewn cyfleusterau trwyddedig i ffwrdd oddi wrth Safle'r Orsaf Bŵer.


Bydd angen i wastraff ymbelydrol sy'n cael ei gategoreiddio fel gwastraff lefel ganolraddol a thanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio gael ei storio yn Safle'r Orsaf Bŵer cyn iddo gael ei waredu, yn y tymor hwy, i gyfleuster gwaredu gwastraff ymbelydrol cenedlaethol yn rhywle arall yn y DU, yn unol â strategaeth y Llywodraeth.

Bydd yn rhaid i wastraff lefel ganolraddol a thanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio gael ei drin a'i storio mewn ffordd arbennig er mwyn diwallu rheoliadau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol. Byddai pecynnau sydd wedi cael eu dylunio'n arbennig yn cael eu defnyddio i storio gwastraff lefel ganolraddol a byddai'r rhain yn cael eu cadw mewn adeilad storio dros dro, mae'n debyg y byddai ei faint yn debyg i'r adeiladau storio presennol yng ngorsafoedd pŵer Trawsfynydd a Berkeley. Rhaid i danwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio gael ei oeri am gyfnod ar ôl ei dynnu o'r adweithydd ac wedyn caiff ei drosglwyddo i'w adeiladau storio dros dro ar wahân ei hun.

Mae Ffigur 10 yn dangos y lleoliad cyffredinol yn Safle'r Orsaf Bŵer lle byddai modd rhoi'r adeiladau storio dros dro ar gyfer gwastraff lefel ganolraddol a thanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio. Mae'r lleoliad hwn wedi cael ei gynnig oherwydd ei fod yn agos at safle'r adweithyddion niwclear a byddai modd trosglwyddo a storio tanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio a gwastraff lefel ganolraddol yn ddiogel ac yn effeithlon. Rydyn ni hefyd yn bwriadu gweithio gyda Magnox Limited i edrych ar y posibilrwydd y byddai modd gosod cyfleusterau storio dros dro yn ardal safle gorsaf bŵer bresennol Magnox, ar ôl iddi gael ei datgomisiynu. Byddai defnyddio'r tir hwn hefyd yn lleihau faint o dir rydyn ni ei angen ar gyfer Safle'r Orsaf Bŵer.


### EICH SAFBWYNTIAU

***Rydyn ni'n croesawu eich sylwadau ar y lleoliadau dangosol a'r lleoliadau eraill posibl ar gyfer storio gwastraff lefel ganolraddol a thanwydd wedi'i ddefnyddio.***




**Ffigur 10:** Y lleoliad dangosol ar gyfer storio gwastraff lefel ganolraddol a thanwydd sydd wedi cael ei ddefnyddio dros dro

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited




**Ffigur 11:** Cynllun dangosol yr Orsaf Bŵer

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Adeiladu'r Orsaf Bŵer

## GWAITH GALLUOGI

Gwaith Galluogi ydy'r term rydyn ni'n ei ddefnyddio ar gyfer y gweithgareddau sydd eu hangen er mwyn paratoi Ardal Datblygu Wylfa Newydd ar gyfer adeiladu Gorsaf Bŵer. Mae'r rhan fwyaf o'r Gwaith Galluogi'n cynnwys gweithgareddau fel lefelu ardaloedd ar gyfer compowndiau adeiladu; cau Ffordd Cemlyn yn barhaol a rhai llwybrau troed cyhoeddus (a dargyfeirio rhai eraill); cael gwared ar adeiladau a llystyfiant; codi ffensys o amgylch yr ardal waith; gosod goleuadau a mesurau diogelwch; a gosod y cyfleuster glanio dros dro. Cyn cau Ffordd Cemlyn, byddwn ni'n uwchraddio'r ffordd arall i Fae Cemlyn drwy Ffordd Nanner.

Rydyn ni hefyd yn bwriadu creu ffordd fynediad newydd ar gyfer yr Orsaf Bŵer. Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 7 byddai llwybr tebygol Ffordd Fynediad yr Orsaf Bŵer yn gadael yr A5025 ychydig i'r de o Dregele.

Er mwyn sicrhau bod y Datblygiadau Cysylltiedig yn barod mewn da bryd i gefnogi'r prif weithgareddau adeiladu, byddwn ni'n cynllunio i'r gwaith adeiladu ddechrau cyn dechrau cam y Prif Waith Adeiladu.

### RHAGOR O WAITH DARLLEN

***Gallwch ddarllen rhagor am y Gwaith Galluogi ym Mhennod 7 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un.***




## Y PRIF WAITH ADEILADU

Disgwylir y bydd cam y Prif Waith Adeiladu yn para naw blynedd, gan gyd-daro â'r Gwaith Galluogi am gyfnod. Bydd y gweithgareddau adeiladu yn nodwedd dros dro fawr yn y dirwedd leol er byddwn ni'n ceisio lleihau'r effeithiau drwy fesurau lliniaru, fel sgrinio gweledol.

Rydyn ni'n bwriadu creu compowndiau adeiladu mawr at ddibenion fel storio deunyddiau, swyddfeydd safle a gwneud concrit ac rydyn ni wedi dod o hyd i ardaloedd posibl y byddai eu hangen i'r de ac i'r dwyrain o Safle'r Orsaf Bŵer. Byddai angen nifer o gompowndiau adeiladu ychwanegol hefyd mewn mannau eraill yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd, i gefnogi rhannau penodol o'r Prosiect, fel adeiladu'r strwythur gollwng dŵr oeri yn Nhrwyn Wylfa. Bydd y Prif Waith Adeiladu yn cynnwys lefelu a chloddio'r safle'n derfynol ar gyfer prif sylfeini'r Orsaf Bŵer, y prif waith sifil, codi adeiladau a chomisiynu pob adweithydd niwclear. Rydyn ni'n ystyried shifftiau gweithio 24 awr (gweithgareddau heb lawer o sŵn gan fwyaf) ar adegau penodol yn ystod cam y Prif Waith Adeiladu.

Gallai'r gwaith adeiladu arwain at oddeutu 10 miliwn metr ciwbig o ddeunyddiau wedi'u cloddio. Bydd llawer iawn o'r deunyddiau hyn yn cael eu defnyddio i lefelu'r ardaloedd sydd eu hangen ar gyfer llwyfan adeilad yr Orsaf Bŵer ac i lefelu'r compowndiau adeiladu. Bydd y rhan fwyaf o'r deunyddiau eraill a fydd yn cael eu cloddio yn cael eu defnyddio yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd i greu lleoliad tirwedd priodol i'r Orsaf Bŵer ac i helpu i liniaru effeithiau gweledol a sŵn tebygol. Mae'r dudalen ganlynol yn rhoi'r dull gweithredu cyffredinol o ran Tirwedd ac Ymddangosiad. Rydyn ni'n bwriadu datblygu ein cynigion ymhellach ar gyfer diwallu'r gofynion adeiladu, a fydd yn sbardun allweddol o ran penderfynu ar gamau ein cynigion tirweddu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited




**Ffigur 12:** Adeiladu adeilad ABWR yn Shimane 3 yn Japan

## RHAGOR O WAITH DARLLEN

*Gallwch ddarllen rhagor am Gam y Prif Waith Adeiladu ym Mhennod 7 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un.*

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Adeiladu'r Orsaf Bŵer

## TIRWEDD AC YMDDANGOSIAD

Rydyn ni'n cynnig creu lleoliad ar gyfer yr Orsaf Bŵer a fyddai'n adlewyrchu'r dirwedd drymlinoedd bresennol. Byddai hyn yn defnyddio'r deunyddiau a fydd yn cael eu cloddio o Safle'r Orsaf Bŵer i greu'r twmpathau crwn, a fyddai'n cael eu ffurfio mewn nifer o leoliadau gwahanol yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Fel rhan o'r cynnig tirweddu, byddai llystyfiant lleol nodweddiadol yn cael ei blannu ar y twmpathau hyn, gan gynnwys gwrychoedd, coed a llwyni brodorol. Byddai hyn yn golygu bod modd i rywfaint o'r tir ddychwelyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol a hamdden pan na fydd ei angen mwyach ar gyfer y gwaith adeiladu. Mae Ffigur 13 yn dangos sut byddai modd trefnu hyn pan fyddai'r Orsaf Bŵer yn weithredol. Mae'r Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol yn cynnwys darluniau o sut gallai hyn edrych o safbwyntiau penodol.

Y dull gweithredu bydden ni'n ei ffafrio o ran tirwedd fyddai creu twmpathau a lleoliad tirwedd a fydd yn cynnwys lliniaru effeithiau gweledol a sŵn y Prosiect. Ar hyn o bryd rydyn ni'n gweithio i archwilio nodweddion tebygol y deunyddiau a fyddai'n cael eu cloddio a fydd yn ein helpu i ddeall pa mor ddwys fyddai'r deunyddiau'n gallu cael gwasgu i lawr yn ystod y gweithgareddau creu twmpathau ac, felly, faint fyddwn ni ei angen. Os bydd rhagor o waith yn awgrymu bod angen i ni gloddio mwy o ddeunyddiau nag a ddisgwylir ar hyn o bryd, efallai bydd angen i ni addasu ein cynnig tirweddu dangosol. Byddai hyn yn golygu bod angen i ni adolygu defnydd tir ar draws Ardal Datblygu Wylfa Newydd, gan gynnwys yr ardaloedd dynodedig fel Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Tre'r Gof a Gerddi Cestyll. Efallai bydd hefyd angen ystyried mynd â rhywfaint o ddeunyddiau a fydd wedi'u cloddio i ffwrdd o Safle'r Orsaf Bŵer a byddai angen i ni ddeall cyfleoedd a goblygiadau posibl gwneud hyn, dros y môr neu ar y ffyrdd.

### RHAGOR O WAITH DARLLEN

***Gallwch ddarllen rhagor am ein cynnig dylunio tirwedd a'r Cynllun Meistr Tirwedd a Bioamrywiaeth ym Mhennod 8 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un.***








### EICH SAFBWYNTIAU

***Rydyn ni'n awyddus i glywed eich sylwadau ar sut rydyn ni'n llunio'r dirwedd a'r dewisiadau a fyddai orau gennych chi o ran y mathau o blanhigion y byddai modd eu dewis.***

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

ALLWEDD

- Safle'r Orsaf Bŵer
- Ardal Datblygu Wylfa Newydd
- Ysgubor ystlumod/Tŵr Bywyd gwyllt
- Cwrs dŵr presennol
- Y Trywydd Copr Presennol
- Llwybr Arfordir Cymru Presennol
- Ardal o waith lliniaru arfaethedig ar gyfer y dirwedd a bioamrywiaeth
- Twmpathau tirweddu mawr a gynigir i sgrinio'n weledol, i wanhau sŵn ac i wella'r golygfeydd o'r Orsaf Bŵer
- Twmpathau tirweddu arfaethedig dangosol
- Ardaloedd dangosol o blannu coed a gynigir
- Dewis posibl ar gyfer aliniad newydd Llwybr Arfordir Cymru
- Dewis posibl ar gyfer aliniad newydd y Trywydd Copr
- Llwybr mynediad dangosol ar gyfer Trwyn Wylfa
- Gerddi Cestyll




**Ffigur 13:** Cynnig tirweddu dangosol

## CWESTIWN 5

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynnig tirweddu dangosol Horizon?***

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Adeiladu'r Orsaf Bŵer

## YMDDANGOSIAD GWELEDOL YR ADEILADAU

Nid ydym wedi gwneud penderfyniadau cadarn eto ynghylch elfennau pensaernïol yr adeiladau rydyn ni'n bwriadu eu codi, gan gofio y bydd eu maint a'u hamlygrwydd yn amrywio'n sylweddol. Ar hyn o bryd mae tri phrif gysyniad rydyn ni'n eu hystyried ar gyfer yr adeiladau arfaethedig:

- **Gweddu** i'r amgylchedd cyfagos drwy ddefnyddio lliwiau a deunyddiau naturiol;
- Gwneud safiad **beiddgar** drwy greu tirnod amlwg, drwy ddefnyddio lliwiau llachar a deunyddiau modern; neu
- Cyfuniad o'r cysyniadau gweddu a beiddgar.


Fel enghraifft, byddai gorsaf bŵer bresennol Magnox yn cael ei hystyried yn gyfuniad o ddulliau sy'n gweddu ac sy'n feiddgar o ran pensaernïaeth, gyda lliwiau a deunyddiau'r adeiladau'n gweddu i'r dirwedd yn gyffredinol ond mae graddfa a lleoliad yr adeiladau'n cyferbynnu â'r dirwedd gyfagos.

### CWESTIWN 6


*A ydych chi'n meddwl y dylid dylunio adeiladau'r Orsaf Bŵer i weddu i'r dirwedd neu a ddylen nhw fod yn nodwedd bensaernïol amlwg yn y dirwedd, neu a oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch hyn?*



Gorsaf bŵer bresennol Magnox – cyfuniad o weddu a bod yn feiddgar



Enghreifftiau o ddefnyddio deunyddiau lleol




Enghreifftiau o bensaernïaeth feiddgar



Enghreifftiau o bensaernïaeth feiddgar

### ADBORTH

*Rydyn ni'n awyddus i glywed eich safbwyntiau ynghylch yr hyn a fyddai orau gennych chi ar gyfer yr Orsaf Bŵer o ran lliwiau, deunyddiau ac arddull. Rydyn ni wedi cynnwys amrywiaeth o ddelweddau yma i'ch helpu i lunio eich barn ac mae croeso i chi gyfeirio atyn nhw yn eich ymateb. Bydd eich safbwyntiau'n cael eu hystyried wrth i ni ddatblygu briff datblygu ar gyfer ein harbenigwyr pensaernïol.*



Enghreifftiau o bensaernïaeth feiddgar, gan ddefnyddio deunyddiau lleol



Lliwiau naturiol a phlanhigion yn cydweithio i weddu

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

## CYFLEOEDD GWAITH

Byddwn ni angen llawer iawn o weithwyr drwy gamau adeiladu a gweithredu ein Prosiect, a fydd yn creu cyfleoedd i gefnogi cyflogaeth yn lleol. Ar gyfer y rhan fwyaf o gyfnod adeiladu'r Orsaf Bŵer bydd angen tua 4,000 o weithwyr, ond gallai gyrraedd 8,500 yn ystod y cyfnodau prysuraf. Byddwn ni hefyd angen cyflogi cannoedd o bobl i adeiladu'r Datblygiadau Cysylltiedig a bydd swyddi'n cael eu creu i redeg y ganolfan logisteg, llety gweithwyr dros dro a llwybrau bysiau sy'n gwasanaethu'r cyfleusterau parcio a theithio. Yn anuniongyrchol bydd ein Prosiect hefyd yn creu ac yn cefnogi swyddi a chyflogaeth gysylltiedig mewn diwydiannau fel lletygarwch, hamdden ac adwerthu.

Pan fydd yr Orsaf Bŵer ar waith byddai'n cyflogi hyd at 1,000 o weithwyr a bydd angen tua 1,000 o weithwyr ychwanegol yn ystod cyfnodau segur a fydd wedi'u cynllunio er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw. Yn yr un modd â'r gweithgareddau adeiladu, bydd gweithredu ein Prosiect yn cefnogi swyddi a chyfleoedd gwaith yn anuniongyrchol yn y diwydiannau gwasanaeth.

Mae hyn yn golygu drwy gydol oes y Prosiect, bydd ystod eang o swyddi ar gael – o swyddi technegol medrus, i swyddi goruchwylio a rheoli, i swyddi cefnogi (gweinyddol, cogyddion, glanhawyr ayb) – ac rydyn ni'n gweithio gyda sefydliadau hyfforddi i helpu i sicrhau y bydd yr ystod lawn hon o gyfleoedd ar gael i drigolion Ynys Môn a Gogledd Cymru.

### RHAGOR O WAITH DARLLEN

***Mae rhagor o wybodaeth am y Strategaeth Swyddi a Sgiliau ar gael ym Mhennod 9 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un.***

## BUDDSODDI YN Y GWEITHLU

Er ein bod eisiau defnyddio'r gweithlu medrus, lleol, rydyn ni'n sylweddoli na fydd y nifer o weithwyr sydd ar gael ar hyn o bryd yn gallu cynnal y Prosiect ar hyd ei oes. Felly rydyn ni wedi ymrwymo i sefydlu a rhedeg rhaglenni a fydd yn creu partneriaethau gyda cholegau a sefydliadau sy'n ymwneud yn agos â hyfforddi a recriwtio prentisiaid. Bydd hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio ar uwchsgilio, ailsgilio a hyfforddi pobl ifanc, pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir a phobl eraill a allai ymuno â'n gweithlu yn y dyfodol, a fyddai o fudd i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol ar Ynys Môn. Byddwn yn ceisio cynnal hyfforddiant priodol i weithwyr lleol er mwyn iddyn nhw ennill y sgiliau sy'n angenrheidiol i ddiwallu ein galw.

Er mwyn rheoli'r galw am gyflogaeth a'r sgiliau sydd ar gael yn yr ardaloedd lleol a rhanbarthol rydyn ni'n bwriadu gweithredu Strategaeth Swyddi a Sgiliau. Bydd hyn yn ein helpu i gyfateb swyddi â gweithwyr sy'n meddu ar y sgiliau perthnasol a mynd i'r afael â'r cyfleoedd hyfforddi yn y rhanbarth.




### CWESTIWN 7

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â sgiliau a hyfforddiant a hybu cyflogaeth leol a rhanbarthol?***






© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Adeiladu'r Orsaf Bŵer

### YMGYSYLLTU Â'R GADWYN GYFLENWI A CHAFFAEL LLEOL

Mae'r Prosiect hwn yn golygu buddsoddi biliynau o bunnoedd yn yr economi a bydd yn creu amrywiaeth o gyfleoedd busnes. Fel rhan o'r manteision sy'n deillio o'r Prosiect, rydyn ni'n gobeithio y bydd y marchnadoedd lleol, rhanbarthol, Cymreig a'r DU yn gallu manteisio ar lawer iawn o'r cyfleoedd hyn. Rydyn ni'n credu y dylai cadwyn gyflenwi'r DU gyflenwi cyfran fawr o werth y Prosiect ac rydyn ni eisiau helpu hyn drwy ymgysylltu'n gynnar ac yn rhagweithiol â darpar gyflenwyr a busnesau lleol.

Rydyn ni wedi rhoi prosesau caffael cadarn ar waith i sicrhau bod cyflenwi nwyddau a gwasanaethau'n cael ei sicrhau mewn ffordd amserol ar yr un pryd â diwallu ein hamcanion o ran diogelwch, ansawdd a gwerth am arian. Rydyn ni'n bwriadu rheoli hyn yn ofalus i sicrhau bod darpar gyflenwyr yn deall ein prosesau a'n gofynion yn glir.

Er mwyn cefnogi hyn ymhellach, rydyn ni'n bwriadu cynhyrchu Siarter Cadwyn Gyflenwi a fydd yn amlinellu ein hymrwymiadau i gaffael drwy gontractau ac egluro'r ffordd orau a hawsaf o ymgysylltu â ni a'n prif gyflenwyr fframwaith.

Byddwn yn gwneud ein gorau glas i roi gwybod yn glir am unrhyw gyfleoedd busnes posibl ac rydyn ni'n gweithio ar y mecanwaith gorau ar gyfer dod o hyd i gyflenwyr gwasanaethau a chynnyrch lleol. Wrth i'r trefniadau hyn gael eu sefydlu, rydyn ni'n edrych ar y ffordd orau o godi mwy o ymwybyddiaeth o gyfleoedd tendro a phrosesau contractio, gan gynnwys ar gyfer contractau sydd â gwerth is ac nad ydyn nhw'n ymwneud â'r maes niwclear ac a allai fod yn fwy o fewn cyrraedd cyflenwyr lleol.

Gall cyflenwyr gofrestru ar ein system Cofrestru Cyflenwyr yn: **www.horizonnuclearpower.com/cofrestru-cyflenwyr** a fydd ar gael ar gyfer cyfleoedd tendro yn y dyfodol.

### CWESTIWN 8

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch ymgysylltiad Horizon â'r gadwyn gyflenwi a chynigion ar gyfer prynu gan fusnesau a chyflenwyr lleol a rhanbarthol?***



### RHAGOR O WYBODAETH

***Mae dros 50 o gontractau wedi cael eu rhoi i gwmnïau lleol hyd yn hyn.***



© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited











## ADBORTH

*Rydyn ni'n awyddus i ddeall y mathau o gyngor a chymorth bydden ni'n gallu eu darparu i helpu i'ch paratoi chi a busnesau lleol i gymryd rhan yng nghadwyn gyflenwi'r Prosiect. Gallai eich adborth chi helpu i ddylanwadu ar beth rydyn ni'n ei gynnwys yn ein Siarter Cadwyn Gyflenwi.*

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Diwallu gofynion y gweithlu adeiladu a thrafnidiaeth

## STRATEGAETH TRAFNIDIAETH A THRAFFIG INTEGREDIG

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod anghenion trafnidiaeth y Prosiect yn cael eu rheoli i leihau'r effeithiau ar gymunedau Ynys Môn. Rydyn ni eisiau gwneud hyn drwy symud pobl a nwyddau'n effeithlon, rheoli'r effeithiau amgylcheddol, sicrhau diogelwch defnyddwyr a chymunedau a chyflwyno atebion sy'n cynnig rhai manteision posibl i'r dyfodol.

Byddai ein Strategaeth Trafnidiaeth a Thraffig Integredig arfaethedig yn mynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffordd gydlynol; gan gynnig pecyn o fesurau trafnidiaeth sy'n berthnasol i amrywiaeth o ddulliau trafnidiaeth gwahanol sydd ar gael yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Orsaf Bŵer. Mae egwyddorion y Strategaeth Trafnidiaeth a Thraffig Integredig ddrafft yn ceisio:

- Sicrhau diogelwch ffyrdd ar gyfer pob math o ddefnyddwyr, gan gynnwys cerddwyr a beicwyr
- Hyrwyddo defnyddio dulliau ar wahân i'r ffyrdd ar gyfer cludo nwyddau a hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy ar gyfer cludo'r gweithlu
- Lleihau'r angen i deithio, gan gynnwys drwy gyfyngu ar y galw i gyfyngu ar dwf y traffig
- Lleihau nifer y siwrneiau drwy bob dull drwy effeithlonrwydd trafnidiaeth
- Cynnig dulliau trafnidiaeth i'r gweithlu sy'n effeithlon, yn hyblyg, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy
- Rheoli symudiadau cerbydau preifat a cherbydau cludo ar hyd coridor yr A5025
- Rheoli'r amhariad ar gymunedau presennol drwy draffig ychwanegol ar y ffyrdd a datblygu mesurau er mwyn gallu rheoli'r traffig i osgoi gwaethygu tagfeydd yn ystod oriau brig ar y rhwydwaith priffyrdd presennol
- Pan fo'n bosibl, osgoi a lliniaru yn erbyn effeithiau amgylcheddol niweidiol sylweddol a ragwelir a fydd yn deillio o ofynion trafnidiaeth y Prosiect
- Lleihau'r gofynion o ran faint o dir sydd ei angen er mwyn darparu 'r seilwaith trafnidiaeth angenrheidiol
- Pan fo'n bosibl, darparu budd i'r dyfodol i Ynys Môn




### RHAGOR O WAITH DARLLEN

***Mae rhagor o wybodaeth am anghenion trafnidiaeth cyffredinol y Prosiect a'r dewisiadau ar gyfer symud nwyddau a phobl ar gael ym Mhennod 10 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un.***

### CWESTIWN 9

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch egwyddorion Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig ddrafft Horizon?***

## DULLIAU TRAFNIDIAETH

Rydyn ni wedi ystyried ac astudio cyfuniad o ddulliau trafnidiaeth hedfan, rheilffyrdd, ffyrdd a môr i benderfynu beth fyddai'n gwasanaethu'r gymuned orau yn ogystal â chyrraedd ein nodau adeiladu a gweithredu. Bydd y Prosiect yn gofyn am symud llawer iawn o nwyddau, bydd rhai o'r rheini yn offer ac yn beiriannau eithriadol o fawr o'r enw 'Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin' sy'n tueddu i fod yn fwy na cherbydau cludo nwyddau arferol a bydd angen caniatâd arbennig a cherbydau hebrwng ar gyfer y rhain. Gallai symud Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin ar ffyrdd achosi llawer o amharu felly rydyn ni wedi ystyried ffyrdd eraill o ddanfon Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin ac rydyn ni wedi penderfynu mai'r ateb gorau ydy eu danfon yn uniongyrchol i Safle'r Orsaf Bŵer dros y môr.

Mae defnyddio trenau ac awyrennau fel dulliau allweddol o gludo nwyddau i ogledd Ynys Môn yn llai ymarferol ac effeithlon wrth gymharu â danfon nwyddau dros y môr. Ar ben hynny, gan y byddai danfon i ben pellaf y rheilffordd neu'r maes awyr agosaf yn golygu bod angen trosglwyddo'r nwyddau i gerbydau nwyddau trwm er mwyn eu cludo ymlaen i Safle'r Orsaf Bŵer ar hyd yr A5025, ni fyddai'r dulliau hyn yn osgoi ychwanegu'n sylweddol at y traffig nwyddau trwm ar hyd y rhwydwaith ffyrdd o amgylch Wylfa. O'r herwydd, rydyn ni'n canolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar ddefnyddio cludo dros y môr i gludo nwyddau ac ategu hyn gyda defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd mewn modd wedi'i reoli.

Rydyn ni'n cydnabod y gallai fod swyddogaeth i reilffyrdd, awyrennau a fferis er mwyn bod yn rhan o siwrneiau hirach ar gyfer ein gweithlu ac rydyn ni'n ystyried sut gellid cefnogi hyn, efallai drwy ddefnyddio gwasanaethau bysiau gwennol rhwng yr orsaf reilffordd, y maes awyr, Porthladd Caergybi a Safle'r Orsaf Bŵer.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

## DANFON NWYDDAU DROS Y MÔR

Er mwyn lleihau faint o gerbydau cludo nwyddau adeiladu a fydd ar y ffyrdd ac er mwyn mynd i'r afael â phryderon diogelwch ar hyd y llwybr o'r porthladd agosaf yng Nghaergybi, rydyn ni wedi cynnig cyfleuster dadlwytho morol newydd, fel sy'n cael ei drafod ar Dudalen 14 y ddogfen hon. Bydd hyn yn golygu bod modd cludo'r rhan fwyaf o'r nwyddau sydd eu hangen i adeiladu'r Orsaf Bŵer yn uniongyrchol dros y môr. Bydd y cyfleuster dadlwytho morol yn cynnwys dau gei, craeniau ar y tir ar gyfer dadlwytho a llwybr mynediad uniongyrchol i'r compowndiau adeiladu amrywiol yn Safle'r Orsaf Bŵer ac o'i amgylch. Byddai adeiladu'r cyfleuster dadlwytho morol hefyd yn cynnwys gosod marcwyr a goleuadau mordwyo, gan ddangos y sianel ddiogel i longau.


Yn ystod cyfnod gweithredu'r Orsaf Bŵer, byddai'r cyfleuster dadlwytho morol yn caniatáu danfon eitemau mawr o bryd i'w gilydd, a allai fod yn offer ac yn beiriannau newydd, yn uniongyrchol i Safle'r Orsaf Bŵer, heb eu symud ar hyd ffyrdd cyhoeddus.

### CWESTIWN 10

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion trafnidiaeth môr Horizon?***

### RHAGOR O WAITH DARLLEN

***Mae gwybodaeth ychwanegol am ddyluniad y cyfleuster dadlwytho morol ar gael ym Mhennod 10 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un.***







© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Diwallu gofynion y gweithlu adeiladu a thrafnidiaeth

## SYMUDIADAU AR Y FFYRDD


Rydyn ni'n bwriadu gorfodi defnyddio llwybr penodol i symud y traffig cludo nwyddau a fydd yn cael ei achosi gan y Prosiect, mae hyn yn cael ei ddangos fel y Llwybr Cludo Dynodedig yn Ffigur 14. Mae rheoli'r traffig cludo fel hyn yn ein galluogi i sicrhau bod cerbydau nwyddau trwm yn defnyddio'r prif ffyrdd ac yn osgoi pasio drwy'r pentrefi a'r pentrefannau sydd ar hyd llwybrau eraill rhwng y tir mawr ac Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

Yn ogystal â hybu defnyddio'r Llwybr Cludo Dynodedig, mae cynigion ein Prosiect yn cynnwys darparu o leiaf un ganolfan logisteg a fydd yn ein galluogi i reoli amseriad a faint o draffig cludo ac adeiladu sydd ar y ffyrdd.

Er mwyn rhoi sylw i fater traffig cerbydau gweithwyr, rydyn ni am ddatblygu cyfleusterau parcio a theithio a fyddai'n ganolfannau ar gyfer cludo gweithwyr adeiladu o gerbydau preifat i fysiau. Byddai gwneud hyn yn golygu bod modd i Horizon reoli faint o siwrneiau cerbydau preifat a fyddai'n cael eu gwneud rhwng y cyfleusterau ac Ardal Datblygu Wylfa Newydd.

Rydyn ni'n hefyd yn ystyried system bysiau a fyddai'n dilyn llwybr penodol, gan godi gweithwyr mewn aneddiadau a chanolfannau trafnidiaeth (fel gorsaf reilffordd) ar Ynys Môn a'u danfon i ardaloedd adeiladu yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd. Byddai'r math hwn o gynllun yn gwasanaethu gweithwyr sy'n byw ar Ynys Môn orau. Rydyn ni hefyd yn bwriadu darparu gwasanaethau bysiau o safleoedd llety gweithwyr dros dro oddi ar y safle.

Mae rhoi'r cynlluniau hyn ar waith yn golygu y bydden ni'n gallu rheoli nifer y cerbydau sy'n cael eu hychwanegu at y rhwydwaith ffyrdd yn ystod y cam adeiladu.




**Ffigur 14:** Llwybr cludo dynodedig

## CWESTIWN 11

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar gynigion trafnidiaeth ffyrdd Horizon?***

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Diwallu gofynion y gweithlu adeiladu a thrafnidiaeth

## DEWISIADAU I WELLA'R PRIFFYRDD


Mae'r prif lwybr i Ardal Datblygu Wylfa Newydd o'r tir mawr a'r porthladd yng Nghaergybi yn rhedeg ar hyd yr A55, yr A5 a'r A5025 ac mae'r ffyrdd hyn wedi cael eu cynnwys yn y Llwybr Cludo Dynodedig. Er nad ydy ein hastudiaethau llawn wedi cael eu cwblhau eto, rydyn ni'n disgwyl y byddai angen gwneud llawer o waith i wella'r briffordd ar hyd yr A5025 o'r Fali i Ardal Datblygu Wylfa Newydd er mwyn rhoi sylw i faterion diogelwch ac amgylcheddol sy'n bodoli a allai gael eu gwaethygu oherwydd y traffig adeiladu sy'n ymwneud â'r Prosiect. Gallai'r gwaith gwella hyn gynnwys lledu, ail-alinio ac ail-wynebu.

Rydyn ni hefyd yn deall bod nifer o leoliadau penodol, fel sy'n cael eu dangos yn Ffigur 15, lle gallai llif y traffig ar hyd yr A5025 gael ei gyfyngu ac rydyn ni wedi datblygu cynigion ar gyfer gwelliannau, ac mae nifer o ddewisiadau'n bosibl ar gyfer rhai ohonyn nhw.

Yn gyffredinol byddai'r gwelliannau hyn yn golygu adeiladu rhannau newydd o ffordd i liniaru a gwella'r cyfyngiadau hyn. Mae'r gwelliannau hyn yn cael eu disgrifio ar y tudalennau canlynol.

### RHAGOR O WYBODAETH

***Ar gyfer yr adegau pan rydyn ni'n cynnig symud llwyth mawr o nwyddau ar hyd y ffyrdd, byddwn yn rhoi gwybod i'r rhannau hynny o'r gymuned y bydd hyn yn effeithio arnyn nhw.***




### EICH SAFBWYNTIAU

***Rydyn ni'n croesawu eich barn ar y cynigion presennol ar gyfer gwella'r ffordd all-lein ar hyd yr A5025.***

**Ffigur 15:** Trosolwg o'r lleoliadau ar gyfer gwelliannau posibl i'r ffyrdd

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited


# Diwallu gofynion y gweithlu adeiladu a thrafnidiaeth

**Y dewis i wella cyffordd y Fali**


Ar hyn o bryd rydyn ni'n cyfri'r traffig i ddeall y materion capasiti yn yr ardal hon. Ar sail y wybodaeth hon, byddwn yn penderfynu a oes angen cyffordd newydd a fyddai'n osgoi'r groesffordd sydd yno ar hyn o bryd ac yn mynd â thraffig i ffwrdd o ganol y Fali er mwyn ymdopi â'r cynnydd a ddisgwylir mewn cerbydau nwyddau trwm oherwydd y Prosiect a'r lle sydd ei angen er mwyn i'r cerbydau mawr hyn allu troi. Os byddwn ni'n penderfynu bod angen cyffordd newydd, mae'r aliniad rydyn ni'n ei gynnig yn cael ei ddangos yn Ffigur 16.

**ALLWEDD**

- Ardal lle mae gwelliannau'n cael eu hystyried
- Afon/Nant/ Sianel draenio
- Llinellau Pŵer Uwchben




**Ffigur 16:** Dewis i wella cyffordd y Fali




**Ffigur 17:** Dewisiadau ffordd osgoi Llanfachraeth

**Dewisiadau ffordd osgoi Llanfachraeth**

Mae'r adeiladau drwy'r rhan hon o'r A5025 yn eithaf agos at y ffordd sy'n achosi pryderon amgylcheddol ac o ran diogelwch mewn perthynas â thraffig adeiladu. Rydyn ni wedi cynnig tri dewis arall a fyddai'n osgoi Llanfachraeth i ddwyrain y pentref, gan osgoi'r nodweddion amgylcheddol i'r gorllewin. Fel sy'n cael eu dangos ar Ffigur 17, mae'r rhain yn cynnwys:


- Llanfachraeth Dewis 1 (glas) - sy'n dargyfeirio'r traffig i ffwrdd o ganol yr anheddiad, sy'n cynnwys ysgol a nifer o adeiladau rhestredig.
- Llanfachraeth Dewis 2 (oren) – sy'n creu aliniad sy'n fwy syth a fyddai'n golygu bod mwy o gyfleoedd i oddiweddyd.
- Llanfachraeth Dewis 3 (coch) – y dewis hiraf sy'n dilyn ffin yr anheddiad presennol agosaf ac sydd hefyd agosaf at yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited


**Dewisiadau sythu ffordd Llanfaethlu**

Mae Llanfaethlu'n cynnwys sawl eiddo sy'n agos at yr A5025, sydd hefyd â throadau tynn ac elltydd sy'n golygu ei bod yn anodd gweld, a dydy'r traffig ddim yn llifo. Rydyn ni'n cynnig yr aliniadau sy'n cael eu dangos ar Ffigur 18 er mwyn gwella diogelwch defnyddwyr a lleihau neu osgoi'r effeithiau ar yr amgylchedd ac ar y gymuned leol:

- Llanfaethlu Dewis 1 (glas) – sythu'r troadau i roi aliniad sy'n fwy addas ar gyfer cerbydau nwyddau trwm na fyddai'n dod drwy ganol Llanfaethlu.
- Llanfaethlu Dewis 2 (coch) - sythu'r troadau dros bellter mwy o'r ffordd er mwyn ail-alinio'r A5025 drwy Lanfaethlu i osgoi eiddo preswyl yng nghanol yr anheddiad a hefyd i'r gogledd. Byddai'r aliniad hwn yn golygu mynd rhywfaint i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn.




**Ffigur 18:** Dewisiadau sythu ffordd Llanfaethlu




**Ffigur 19:** Y dewis i wella rhwng Llanrhuddlad a Chefn Coch

**Y dewis i wella rhwng Llanrhuddlad a Chefn Coch**

I'r de o Gefn Coch, dydy'r A5025 ddim yn cyrraedd y safonau priffyrdd presennol ar gyfer cludo cerbydau nwyddau trwm yn hawdd ac yn ddiogel. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydyn ni'n cynnig ffordd osgoi i'r ardal fel sy'n cael ei dangos yn Ffigur 19.

**ALLWEDD**

- Ardal lle mae gwelliannau'n cael eu hystyried
- Afon/Nant/ Sianel draenio
- Llinellau Pŵer Uwchben

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Diwallu gofynion y gweithlu adeiladu a thrafnidiaeth

## STRATEGAETH LLETY GWEITHWYR

Byddai nifer y gweithwyr adeiladu, ac felly eu gofynion o ran llety, yn amrywio dros amser. Rydyn ni wedi paratoi'r egwyddorion ar gyfer Strategaeth Llety Gweithwyr a fydd yn ein helpu i reoli'r gweithlu dros dro ar yr un pryd â cheisio rheoli'r effeithiau ar y gymuned ac ar yr amgylchedd. Rydyn ni'n disgwyl y bydd cyfran o'r gweithwyr adeiladu yn lleol, sy'n golygu na fydd angen llety ar eu cyfer. Ar gyfer y gweithwyr nad ydyn nhw'n rhai lleol, byddai egwyddorion y Strategaeth Llety Gweithwyr yn:

- Nodi defnyddio gwelyau sydd ar gael ar hyn o bryd cyn ystyried cynyddu'r cyflenwad
- Hwyluso amrywiaeth o ddewisiadau tai i ddiwallu anghenion disgwyliedig y gweithlu
- Lleihau'r angen i deithio drwy leoli cyfleoedd tai yn agos at ddewisiadau cludiant cyhoeddus, gwasanaethau a chyfleusterau hamdden
- Nodi lleoliad tai ychwanegol, yn enwedig cyfleusterau llety gweithwyr dros dro, yn agos at wasanaethau iechyd a hamdden, ac i ffwrdd oddi wrth safleoedd sy'n sensitif yn amgylcheddol, drwy ddefnyddio'r ardal chwilio fawr
- Ystyried manteision i'r dyfodol pan na fydd angen llety dros dro i'r gweithwyr mwyach i gefnogi'r gwaith adeiladu

### RHAGOR O WAITH DARLLEN

*Mae gwybodaeth ychwanegol am ein Strategaeth Llety Gweithwyr ar gael ym Mhennod 10 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un.*

Byddai datblygu llety gweithwyr dros dro oddi ar y safle yn diwallu unrhyw ddiffyg mewn capasiti sy'n bodoli ar hyn o bryd ac yn fwy na thebyg byddai ar ffurf campws. Gan y byddai'r math o hwn o lety yn cynnal llawer iawn o weithwyr, rydyn ni'n bwriadu darparu cyfleusterau chwaraeon, hamdden ac adloniant penodol fel rhan o'r dyluniad. Byddai cael cynifer â hyn o weithwyr mewn un lle hefyd yn ein galluogi i weithredu atebion cludo cynaliadwy crynswth fel trafnidiaeth bysiau a bysiau gwennol a fyddai'n lleihau'r effeithiau ar y gymuned.

Yn yr un modd â'r cyfleusterau parcio a theithio a'r ganolfan logisteg a ragwelir, mae lleoliadau addas ar gyfer llety gweithwyr dros dro yn cael eu nodi yn yr ardal chwilio fawr, sy'n cael ei hegluro ar dudalen nesaf y ddogfen hon.





### EICH SAFBWYNTIAU

***Rydyn ni'n awyddus i ddeall eich safbwyntiau ynghylch defnyddio llety i dwristiaid, y stoc dai sydd ar gael ar hyn o bryd a chyfleoedd i adeiladu tai pwrpasol.***

### RHAGOR O WYBODAETH

*Mae canolfan logisteg yn gyfleuster 24-awr diogel sy'n gallu derbyn cerbydau, a'i phrif swyddogaeth yw rheoli llif traffig adeiladu ymlaen. Bydd y math hwn o gyfleuster yn ein helpu i reoli effaith traffig adeiladu ar dagfeydd oriau brig ar y rhwydwaith priffyrdd a byddai'n golygu bod modd cyfuno llwythi i nifer llai o siwrneiau.*

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

## ARDAL CHWILIO FAWR AR GYFER SAFLEOEDD DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG

Mae cynigion ein Prosiect yn cynnwys edrych ar amrywiaeth o gynlluniau trafnidiaeth a fydd yn ein helpu i reoli cludo nwyddau a phobl, a'r rhai mwyaf amlwg yw'r cyfleusterau parcio a theithio ac o leiaf un ganolfan logisteg. Rydyn ni hefyd angen dod o hyd i o leiaf un lleoliad oddi ar y safle ar gyfer datblygu cyfleusterau llety gweithwyr dros dro ar gyfer y gweithwyr adeiladu.

Mae lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio ac o leiaf un ganolfan logisteg yn cael eu nodi yn yr ardal chwilio fawr, fel sy'n cael ei dangos yn Ffigur 20, ac yn agos at goridor yr A55. Rydyn ni hefyd yn nodi tir yn yr ardal chwilio fawr a allai fod yn addas ar gyfer llety gweithwyr dros dro oddi ar y safle.


Byddem yn croesawu awgrymiadau am o leiaf 1.5 hectar o dir yn yr ardal chwilio fawr rydych chi'n meddwl a fyddai'n addas ar gyfer y mathau hyn o Ddatblygiadau Cysylltiedig, sydd eu hangen er mwyn cefnogi adeiladu'r Orsaf Bŵer.

### CWESTIWN 12

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr ardal chwilio fawr neu awgrymiadau ar gyfer safleoedd gallai Horizon eu datblygu ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio, canolfannau logisteg neu lety gweithwyr dros dro?***

### RHAGOR O WYBODAETH

***Mae Pennod 10 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un yn cynnwys y meini prawf ar gyfer adnabod y safleoedd sy'n cael eu ffafrio yn yr ardal chwilio fawr, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer gwerthuso tir a allai fod yn addas ymhellach.***




**Ffigur 20:** Ardal chwilio fawr ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio, canolfan logisteg a llety gweithwyr dros dro

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Manteision i'r dyfodol a chyfleusterau cymunedol

## MANTEISION I'R DYFODOL

Rydyn ni'n cydnabod bydd angen buddsoddi mewn seilwaith perthnasol a mesurau lliniaru a nodir drwy'r broses asesiad o'r effaith amgylcheddol er mwyn rheoli effeithiau'r Prosiect ar gymunedau ac ar amgylchedd Ynys Môn. Yn ogystal â'r manteision a ddisgwylir o ganlyniad i gyfleoedd gwaith a hyfforddiant, rydyn ni'n bwriadu darparu nifer o welliannau gyda'r Prosiect. Rydyn ni'n ystyried ei bod hi'n bosibl i'r canlynol ddarparu manteision cadarnhaol i Ynys Môn i'r dyfodol:

- Bydd priffyrdd yn cael eu gwella mewn ffordd sy'n golygu, pan fo'n bosibl, y byddai'r rhain yn welliannau parhaol. Yn enwedig pan mae ffyrdd osgoi'n cael eu hystyried, rydyn ni'n bwriadu gweithio gyda'r gymuned i ddeall y materion lleol ac ystyried gwelliannau priodol
- Bydd darpariaeth gwasanaeth iechyd yn cael ei gwella i ddiwallu'r galw a ddisgwylir yn ystod cam y Prif Waith Adeiladu; serch hynny, rydyn ni'n edrych ar sut mae modd darparu'r gwasanaethau hyn er mwyn iddyn nhw aros yn y gymuned wedyn
- Dylunio llety gweithwyr dros dro gan feddwl am y potensial ar gyfer manteision i'r dyfodol
- Buddsoddi mewn cynlluniau i wella ac uwchraddio'r stoc dai bresennol i gefnogi'r galw a ddisgwylir gan weithwyr adeiladu ond gyda'r potensial i'w haddasu yn stoc dai dymor hir o ansawdd neu eu trosglwyddo i dwristiaeth
- Dewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy, fel gwella llwybrau cerdded, seiclo neu fysiau a fydd yn gwella'r cysylltedd tymor hir ar Ynys Môn i drigolion ac i ymwelwyr
- Defnyddio neu ailddatblygu'r cyfleusterau parcio a theithio a'r canolfannau logisteg rydym yn cynnig eu datblygu mewn lleoliadau dymunol ar hyd prif ffyrdd. Gallai'r rhain fod yn ganolfannau logisteg ar gyfer prosiectau adeiladu yn y dyfodol neu ddatblygiadau sylweddol eraill
- Gwella a chreu cynefinoedd, yn ogystal â lliniaru bioamrywiaeth wedi'i dargedu fel rhan o'n strategaeth lliniaru ecolegol gyffredinol. Byddai hyn yn adeiladu ar ein gwaith diweddar fel codi tŵr bywyd gwyllt a datblygu planhigfa goed ar Ynys Môn





### ADBORTH

***Rydyn ni'n croesawu eich sylwadau ar ein manteision posibl i'r dyfodol ac rydyn ni'n awyddus i gael gwybod pa gyfleusterau a fyddai'n fwyaf gwerthfawr i'r gymuned.***








### CWESTIWN 13

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer manteision tymor hir i'r dyfodol neu gyfleusterau cymunedol?***

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

## RHAGOR O WAITH DARLLEN

*Mae Pennod 11 Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un yn cynnwys gwybodaeth am ein Strategaeth Mynediad Cyhoeddus a Hamdden arfaethedig a rhagor o fanylion am Glwb Cymdeithasol a Chwaraeon Wylfa a'r ganolfan ymwelwyr arfaethedig.*









## CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

Rydyn ni hefyd yn bwriadu darparu cyfleusterau newydd ar gyfer yr adnoddau canlynol:

**CANOLFAN YMWELWYR WYLFA:** Mae cynigion ein Prosiect yn cynnwys newid canolfan ymwelwyr Wylfa. Ar hyn o bryd mae'n cael ei defnyddio gan ysgolion a thwristiaid ar gyfer cyfleoedd addysgol ffurfiol ac anffurfiol. Rydyn ni'n gweld hon fel ffordd bwysig o integreiddio'r Orsaf Bŵer i'r gymuned a'r rhanbarth ehangach a'r lleoliad rydyn ni'n ei ffafrio ar gyfer y cyfleuster hwn ydy yn Adeiladau Porth Wylfa. Er ein bod yn gweld y ganolfan ymwelwyr newydd fel cyfle i ddarparu ardal arddangos, ystafelloedd cyfarfod a hyfforddi, ystafelloedd dosbarth a chaffi, rydyn ni wedi ymrwymo i ymgorffori addysg, dysgu ac arddangosfeydd a chyfleusterau eraill canolfan ymwelwyr.

**CLWB CYMDEITHASOL A CHWARAEON WYLFA:** Bydd angen adleoli Clwb Cymdeithasol a Chwaraeon presennol Wylfa o'i safle ar hyn o bryd yn ystod ein Gwaith Galluogi, o ddechrau 2016 ymlaen. Er mwyn sicrhau dilyniant, rydyn ni'n bwriadu darparu eiddo newydd yn y lleoliad rydyn ni'n ei ffafrio, Adeiladau Porth Wylfa, yn y tymor byr. Rydyn ni hefyd yn ystyried y potensial i ddatblygu cyfleusterau hamdden tymor hir. Byddai modd rhoi'r rhain yn Adeiladau Porth Wylfa neu bydden ni'n gallu edrych ar fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon a hamdden sydd eisoes yn bodoli mewn cymunedau cyfagos, naill ai drwy gefnogi cyfleusterau sy'n bodoli'n barod neu drwy greu rhai newydd.

**MYNEDIAD CYHOEDDUS A HAMDDEN:** Rydyn ni'n bwriadu cynnal neu wella cyflwr presennol mynediad cyhoeddus a hamdden yn yr ardal, a byddwn yn gweithredu hynny drwy Strategaeth Mynediad Cyhoeddus a Hamdden a fydd yn cael ei datblygu ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn. Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r strategaeth, ar hyn o bryd rydym yn cynnal arolwg o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a'r cyfleusterau hamdden yn yr ardal, sydd wedi dod o hyd i adnoddau fel Llwybr Arfordir Cymru, y Trywydd Copr a Gerddi Cestyll. Rydyn ni wedi nodi cyfleoedd posibl er mwyn gwella ansawdd y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, hyrwyddo llwybrau cerdded a seiclo, uwchraddio ardaloedd hamdden cymunedol, yn ogystal â gwella hygyrchedd, arwyddion a darparu gwybodaeth addysgol.

## EICH SAFBWYNTIAU

***Rydyn ni'n awyddus i ddeall pa gyfleusterau neu wasanaethau presennol rydych chi'n ystyried sy'n rhai gwerthfawr iawn a sut gallwn ni roi sylw i'r rhain drwy ddyluniad y Prosiect. Hefyd, byddai'n ddefnyddiol clywed beth rydych chi'n ei feddwl am yr hyn rydyn ni'n ei gynnig, o ran sut bydd y cyfleusterau hyn, eu swyddogaeth a'u lleoliad yn siapio eich cymunedau dros y blynyddoedd nesaf.***

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Ymateb i'r ymgynghoriad

## SUT MAE CYFLWYNO EICH ADBORTH

Mae eich ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn bwysig dros ben er mwyn ein helpu ni i siapio'r Prosiect ac rydyn ni'n edrych ymlaen at gael eich ymatebion.

Byddwn yn ystyried yr ymatebion a ddaw i law yn ystod yr ymgynghoriad ac yn egluro sut maen nhw wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu cynigion ein Prosiect. Pan fyddwn ni heb newid ein cynigion i adlewyrchu'r sylwadau, byddwn yn ceisio rhoi ein rhesymau dros wneud hynny.

Mae'r ymgynghoriad presennol yn cael ei gynnal am 10 wythnos rhwng 29 Medi a 8 Rhagfyr 2014. Gallwch ymateb mewn sawl ffordd:

- **Drwy ffurflen adborth** sydd ar gael mewn digwyddiadau ymgynghori ac ar-lein yn **www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad**
- **Yn ysgrifenedig** i'n cyfeiriad rhadbost **FREEPOST HORIZON NUCLEAR POWER CONSULTATION**
- **Drwy e-bost** at **ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com**

Mae gennym ni hefyd rif rhadffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg ar **0800 954 9516** er mwyn helpu gydag ymholiadau yn ystod yr ymgynghoriad ac ar ei ôl.

Gwnewch yn siŵr bod eich adborth yn ein cyrraedd erbyn **8 Rhagfyr 2014**.

## CWESTIWN 14

***Oes gennych chi unrhyw sylwadau ychwanegol ar gynigion Prosiect Horizon?***



Bydd cyfres o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal i gefnogi'r ymgynghoriad hwn, yn gyffredinol byddan nhw'n dilyn y tri fformat canlynol:

- Arddangosfeydd cyhoeddus
- Sesiynau 'galw-draw' wedi'u staffio
- Pwyntiau gwybodaeth

Bydd lleoliad ac amser pob digwyddiad ar gael ar ein gwefan yn **www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad.**

**Mae croeso cynnes i chi ddod i'r digwyddiadau hyn i gael gwybodaeth ychwanegol, i ofyn cwestiynau i'r staff ac i roi eich adborth.**

## Y CAMAU NESAF

***Byddwn yn ceisio cydnabod yr holl ymatebion a gawn i'r ymgynghoriad hwn. Bydd Adroddiad Ymgynghoriad Interim yn cael ei baratoi ar ôl yr ymgynghoriad hwn er mwyn ein helpu i dynnu sylw at faterion mae angen i ni fynd i'r afael â nhw wrth i'r gwaith dylunio fynd rhagddo.***

***Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi gyda'n gweithgareddau ymgynghoriad cyn ymgeisio Cam Dau, gan grynhoi'r gweithgareddau perthnasol, yr ymatebion a'r camau rydyn ni wedi'u cymryd drwy gydol y broses ymgynghori.***

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

## DOGFENNAU YMGYNGHORI

Mae'r dogfennau canlynol ar gael i chi eu darllen fel rhan o'r ymgynghoriad hwn:

- Y ddogfen hon, Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Trosolwg o'r Ymgynghoriad Cam Un (ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg)
- Crynodeb annhechnegol o Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd - Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol Cam Un (ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg)
- Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Dogfen Ymgynghoriad Cam Un
- Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Prosiect Wylfa Newydd – Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol Cam Un

Mae'r pedair dogfen hyn ar gael i'w llwytho i lawr oddi ar ein gwefan, **www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad**, neu gallwch weld copïau caled yn ein harddangosfeydd.

## DOGFENNAU CEFNOGOL

Mae'r dogfennau cefnogol canlynol ar gael i chi gael gwybodaeth ychwanegol er nad oes ymgynghoriad ffurfiol ar y rhain:

- Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Prosiect Wylfa Newydd
- Adroddiad Cwmpasu Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Prosiect Wylfa Newydd
- Adroddiad Cwmpasu Asesiad Cynaliadwyedd Prosiect Wylfa Newydd

Mae'r tair dogfen hyn ar gael i chi eu llwytho i lawr oddi ar ein gwefan, **www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad.**




Os hoffech chi gael fersiwn testun mawr neu fersiwn arall o'r ddogfen hon, cysylltwch â ni ar **0800 954 9516** neu ewch i'n gwefan **www.horizonnuclearpower.com/ymgynghoriad**

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

# Nodiadau

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

© Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

PŴER NIWCLEAR
**HORIZON**
NUCLEAR POWER

CYSYLLTWCH Â NI:
Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu adborth am Brosiect Wylfa Newydd gallwch chi gysylltu â ni ar ein llinell gymorth radffôn Wylfa Newydd arbennig a'n cyfeiriad e-bost, drwy ffonio **0800 954 9516** neu e-bostio **ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com**

Horizon Nuclear Power
5210 Valiant Court
Gloucester Business Park
Delta Way, Gloucester, GL3 4FE

Ff +44 (0) 845 300 6816

www.horizonnuclearpower.com/hafan

Mae'r holl ddeunydd sydd yn y ddogfen hon, oni nodir fel arall, yn hawlfraint i Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd ac ni cheir ei atgynhyrchu heb ganiatâd ymlaen llaw. Gall defnyddio neu gopïo'r deunydd heb awdurdod mewn unrhyw ffordd dorri rheolau nod masnach, hawlfraint a hawliau eiddo eraill a statudau sifil a throseddol. Ni cheir defnyddio'r deunydd mewn unrhyw ffordd sy'n torri unrhyw nod masnach, hawlfraint na hawliau eiddo eraill ac mae Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd yn cadw pob hawl mewn perthynas â defnyddio heb awdurdod o'r fath.